# CYLCHLYTHYR RHIENI / GOFALWYR

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Hydref 2024

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol**

## Sut gallwn ni helpu

Mae Gyrfa Cymru yma i'ch cefnogi chi a'ch plentyn i wneud y penderfyniad cywir am ei ddyfodol. Mae gennym dîm o staff yn gweithio mewn ysgolion sy'n cynnwys cynghorydd gyrfa, cynghorydd cyswllt busnes a chydlynydd addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith.



## Cefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol

Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) newydd yn golygu y bydd gan bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol, Gynllun Datblygu Unigol yn hytrach na Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Addysg Unigol. Erbyn Medi 2025 bydd y ddeddf yn cwmpasu pob grŵp oedran mewn ysgol.

Os oes gan eich plentyn Gynllun Datblygu Unigol efallai y bydd y cynghorydd gyrfa yn cael ei wahodd i'w adolygiad blynyddol i drafod ei gyfnod pontio o'r ysgol.Gall y cynghorydd gyrfa roi gwybodaeth a chyngor ar opsiynau ar ôl gadael yr ysgol a'ch cyfeirio at asiantaethau eraill a allai hefyd eich cefnogi chi a'ch plentyn wrth iddo adael yr ysgol.


### Gall ein cynghorwyr gyrfa wneud y canlynol:

- rhoi gwybodaeth, cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfaoedd diduedd
- helpu eich plentyn i ddeall ei gryfderau a chyrraedd ei botensial
- rhannu gwybodaeth am opsiynau amrywiol, gan gynnwys gwaith a dysgu pellach
- helpu'ch plentyn i osod nodau tymor byr a hirdymor sy'n gysylltiedig â'i opsiynau yn y dyfodol
- cefnogi'ch plentyn os bydd yn wynebu anawsterau a heriau

**Mae ein cynghorwyr gyrfa yn teilwra eu dull yn dibynnu ar oedran ac anghenion eich plentyn**


# Tudalennau gwefan ar gyfer rhieni

**Yn ogystal â chynghorydd gyrfaoedd cyswllt yn ysgol eich plentyn, mae gan ein gwefan wybodaeth a all eich helpu i gefnogi eich plentyn.**



Cefnogaeth i rieni a gofalwyr | Gyrfa Cymru (llyw.cymru)

## Adnoddau ar-lein



### Fy Nyfodol


Mae 'Fy Nyfodol' yn adran o'n gwefan sy'n hawdd ei darllen gyda graffeg, lluniau a fideos.

Edrychwch ar rai o'n hofferynnau ar-lein i helpu'ch plentyn i feddwl am ei gryfderau neu i ddysgu am opsiynau gyrfa.



### Sôn am Swyddi

Dysgwch am amrywiaeth o swyddi – beth mae pobl yn ei wneud, beth yw'r cyflog, ac a allai fod yn opsiwn i'ch plentyn.



### Pwy ydw i? Cwis

Bydd y cwis hwn yn helpu eich plentyn i ddarganfod mwy amdano'i hun a'r mathau o waith a allai fod yn addas iddo.




### Cwis Syniadau am Swyddi

Bydd y cwis hwn yn rhoi rhai syniadau i'ch plentyn am swyddi a allai fod yn addas iddo.

### You Tube

Mae fideos byr hefyd ar gael i'ch helpu chi a'ch plentyn.

**Ewch i: Gyrfa Cymru - Fy Nyfodol - YouTube**



# Swyddi Dyfodol Cymru

Fel rhiant, efallai y bydd gennych ddiddordeb mawr mewn deall tirlun gyrfa'r dyfodol sy'n aros i'ch plentyn.

Mae ein hadnodd gwybodaeth rhyngweithiol newydd am y farchnad lafur, Swyddi Dyfodol Cymru, yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiwydiannau allweddol a rhanbarthau Cymru.






Swyddi yng Ngogledd Cymru



Swyddi yng Nghanolbarth Cymru



Swyddi yn Ne-orllewin Cymru



Swyddi yn Ne-ddwyrain Cymru



Swyddi mewn Adeiladu



Swyddi mewn Ynni



Swyddi mewn Iechyd

# Bwletin Swyddi Cymru'n Gweithio

**Os ydych chi fel rhiant am archwilio cyfleoedd gwaith, gall Cymru'n Gweithio helpu.**

**Gall ein Bwletin Swyddi roi mynediad i chi i swyddi gwag cyfredol ledled Cymru.**

**Tanysgrifiwch yma heddiw.**

Cymru'n Gweithio
Working Wales

# Opsiynau

**Mae gwahanol opsiynau ar gael i'ch plentyn pan fydd yn 16 oed:**



## Aros yn yr ysgol

Mewn rhai ysgolion, gall myfyrwyr aros nes eu bod yn 19 oed. Gallent aros yn yr un ysgol neu symud i ysgol arall.

## Mynd i'r coleg

Yn y coleg gallai eich plentyn ddysgu sgiliau newydd, rhoi cynnig ar wersi newydd ac ennill cymhwyster.



## Dechrau gweithio

Os yw'ch plentyn yn gwybod beth mae am ei wneud, gallai eich plentyn wneud cais am swydd ar ôl iddo orffen yn yr ysgol.

## Bod yn hyfforddai


Os yw eich plentyn eisiau cael swydd ond angen dysgu mwy am waith, gallai hyfforddeiaeth fod yn opsiwn.

## Bod yn brentis

Mae Prentisiaethau yng Nghymru yn swyddi sy'n gadael i chi weithio tuag at gymhwyster a chael eich talu ar yr un pryd.

## Gwirfoddoli

Gallai eich plentyn ddatblygu sgiliau a phrofiadau trwy wirfoddoli.




## Am ragor o fanylion am holl opsiynau eich plentyn, ewch i Fy Nyfodol

# Gweithio gyda chyflogwyr

## Wyddech chi ein bod yn cysylltu ysgolion â chyflogwyr lleol?

Mae ysgol St Christopher yn Wrecsam, sy'n darparu addysg i ddisgyblion ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol, wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â ni i wella addysg gyrfaoedd disgyblion.

Drwy weithio mewn partneriaeth â ni a chyflogwyr lleol, mae'r ysgol wedi cynnal digwyddiadau gyrfaoedd diddorol i ddisgyblion, gan gynnwys sgyrsiau, ymweliadau safle a digwyddiadau gweithgaredd carwsél.

Nod y digwyddiadau hyn fu datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r gwahanol gyfleoedd gyrfaoedd sydd ar gael iddynt pan fyddant yn gadael yr ysgol. Dysgu am yr hyn y mae'r swyddi'n ei olygu a pha hyfforddiant y gallai fod ei angen arnynt.



Tesco Wrecsam

Mae gan yr holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan gyfleoedd sy'n addas ar gyfer disgyblion yr ysgol, ac mae llawer ohonynt eisoes yn cyflogi cyn-ddisgyblion Ysgol St Christopher. Mae hyn yn galluogi disgyblion i gysylltu â'r bobl y maent wedi'u cyfarfod a'r rolau y maent wedi bod yn dysgu amdanynt.




Charles Owen Equestrian Hats

Roedd un digwyddiad penodol yn cynnwys taith i Platt's Agriculture i ddysgu am weithio gyda cherbydau nwyddau trwm. Ar ôl sesiwn ystafell ddosbarth yn dysgu am y teithiau a wna gyrwyr y cwmni, cafodd y disgyblion arddangosiad ymarferol gan un o'u gyrwyr ar sut i gadw'n ddiogel wrth weithio gyda'r cerbydau. Aethant ymlaen wedyn i wylio'r peiriannau ar waith yn y safle cynhyrchu a siarad â'r goruchwyliwr sifft cynhyrchu.



Platt's Agriculture

"Mae'n wych gweld yr ysgol a busnesau lleol yn dod at ei gilydd i wneud gwahaniaeth i ddyfodol pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ardal. Mae mor bwysig cyflwyno pobl ifanc, beth bynnag fo'u hanghenion dysgu, i'r cyfleoedd o'u cwmpas, gan eu helpu i ehangu eu gorwelion a'u cefnogi i wneud dewisiadau am eu dyfodol."

**Lesley Lloyd,**
**Cynghorydd Cyswllt Busnes yn Gyrfa Cymru**

# Helpu eich plentyn i gynllunio ei ddyfodol

## Byddwch chi'n ddylanwad mawr ar ddewisiadau eich plentyn ar gyfer y dyfodol.



## Dyma rai o'r ffyrdd y gallwch chi helpu:

- Trafodwch eu syniadau gyrfa ar gyfer y dyfodol a'u hannog i feddwl am yr holl opsiynau sydd ar gael.
- Anogwch nhw i ddatblygu eu sgiliau trwy addysg, hobïau, diddordebau, profiad gwaith a swyddi rhan amser.
- Anogwch nhw i wneud defnydd llawn o'r cymorth sydd ar gael iddynt yn yr ysgol, y coleg a chan Gyrfa Cymru.
- Sicrhewch fod eich gwybodaeth yn gyfredol. Defnyddiwch Swyddi Dyfodol Cymru i gael gwybod am y farchnad swyddi, y sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt a thueddiadau cyflogaeth.
- Anogwch nhw i ddefnyddio'r adran Fy Nyfodol ar y wefan i'w helpu i ddod o hyd i ragor o wybodaeth.
- Anogwch nhw i archwilio fideos sy'n ymwneud â gyrfaoedd ac opsiynau ar sianel YouTube Fy Nyfodol (gwefan allanol).
- Paratowch ar gyfer cyfarfodydd adolygiadau pontio, ac ewch iddynt.
- Cefnogwch nhw i ymweld â cholegau neu ddarpariaeth arall y gallant fynd ymlaen iddi o'r ysgol. Bydd eu helpu i weld gwahanol leoedd yn eu helpu i benderfynu.
- Siaradwch â'r cynghorydd gyrfa os hoffech ragor o wybodaeth.
- Ewch i ddigwyddiadau Gyrfa Cymru neu ddigwyddiadau pontio a gynhelir yn yr ysgol.

## Cysylltwch â ni:

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio 0800 028 4844
- Galwch heibio i un o'n canolfannau gyrfaoedd
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael yn www.gyrfacymru.llyw.cymru
- Anfonwch neges ebost i post@gyrfacymru.llyw.cymru

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government